Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Enw'r gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Coed-duon

# Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-681-9

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Coed-duon fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Ddeintyddol Coed-duon yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol i gleifion y GIG a chleifion preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig/prif ddeintydd a'r unigolyn cyfrifol/prif ddeintydd ar 11 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Asesiad risg diogelwch tân a chofnodlyfr tân
- Asesiad risg anableddau
- Asesiad risg ar gyfer clefyd y lleng filwyr
- Asesiad risg COVID-19 Cymru Gyfan

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer y staff a'r cleifion ar gael yn ogystal â mannau diheintio dwylo ar hyd a lled y practis. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod modd glanhau'n amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddaru ei Weithdrefn Gweithredu Safonol yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd yn y Weithdrefn Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19 yng Nghymru. Dywedwyd wrthym y bydd nyrs gyfaill yn hebrwng y cleifion i'r ddeintyddfa ac oddi yno. Mae hyn yn helpu i leihau cyswllt diangen rhwng aelodau eraill o'r staff, sy'n helpu i gynnal gwasanaethau.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 o fewn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw oedd yn gallu ymweld â'r practis. Mae sgriniau wedi cael eu gosod ar ddesg y dderbynfa ac mae'r holl eitemau diangen wedi cael eu symud o'r deintyddfeydd. Mae pedair deintyddfa i gyd, ond dim ond tair ohonynt sy'n darparu gofal a thriniaethau i gleifion ar hyn o bryd.

Cyn apwyntiad, bydd y staff yn ffonio'r claf ac yn cwblhau ei holiadur hanes meddygol a holiadur COVID-19. Caiff taith y claf ei hesbonio hefyd. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae claf yn ei dreulio yn y ddeintyddfa.

Pan fydd y cleifion yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt aros yn eu car neu'r tu allan hyd nes y bydd aelod o'r staff yn dweud wrthynt am ddod i mewn. Cymerir tymheredd y cleifion a rhoddir hylif diheintio dwylo iddynt pan fyddant yn mynd i mewn i'r practis. Wedyn, bydd aelod o'r staff yn hebrwng y cleifion i'r ddeintyddfa ar gyfer eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, byddai'r practis yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff warchod[1] neu ymgymryd â swydd wahanol yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod digon o gyfarpar ym mhob deintyddfa i gynnal Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol (AGP)[2]. Mae unedau awyru ac unedau tynnu aer wedi'u gosod yn y deintyddfeydd er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ag aer halogedig.

Cwtogwyd ar nifer yr apwyntiadau er mwyn sicrhau bod cyfnod segur[3] digonol a digon o amser i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion. Nododd y staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y cleifion na'r gofal yr oedd y cleifion yn ei gael. Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn teimlo bod y staff yn gweithio'n dda o fewn y cyfyngiadau a'r canllawiau a'u bod wedi addasu'n dda iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o nifer o asesiadau risg (gweler y rhestr uchod) a gyflawnwyd gan gyrff allanol yn ystod y 12 mis diwethaf. Caiff unrhyw argymhellion eu rhestru yn yr adroddiad er mwyn lliniaru'r materion a godwyd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi WHTM01-05 diweddaraf a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Gweithdrefnau Safonol Canolfan Ddeintyddol Coed-duon
- Polisïau ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a gweithdrefnau nad ydynt yn

[1] Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio'r ffordd y dylai'r bobl risg uchel amddiffyn eu hunain drwy beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb.
[2] Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[3] Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

cynhyrchu aerosol, a pholisïau sy'n benodol i COVID-19

- Amserlenni glanhau
- Cofnodion o wiriadau dyddiol ar gyfer pob awtoclaf
- Cofnodion o wiriadau dyddiol ar gyfer y bath uwchsain a'r weithdrefn glanhau â llaw

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom ddogfennau amrywiol ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys y Datganiad o Ddiben. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion ac amserlenni glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn nogfen Gweithdrefn Safonol y practis oedd yn nodi camau gweithredu a chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. At hynny, dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar PPE, gan gynnwys hyfforddiant ar fasgiau a gwisgo a diosg PPE.[4]

Dywedwyd wrthym pan fydd Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol yn cael eu cynnal, fod y galwadau brysbennu yn[5] helpu i nodi'r cyfarpar y bydd ei angen. Caiff hyn ei baratoi ymlaen llaw i leihau nifer y staff sy'n mynd i mewn i'r ddeintyddfa neu'n ei gadael yn ystod y driniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod nyrs gyfaill ar ddyletswydd bob amser. Mae'n hebrwng y cleifion yn ôl ac ymlaen o'r ddeintyddfa ac yn sicrhau bod llwybrau yn ôl ac ymlaen o'r ardaloedd trin yn aros yn glir. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod llai o risg o haint yn ystod Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol.

Esboniodd y staff eu bod yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn penderfynu a oeddent mewn perygl o drosglwyddo'r feirws. Cafodd cleifion a oedd yn dangos symptomau neu'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 gyfarwyddyd i aros gartref ac i beidio â mynychu'r practis.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddigon o PPE, bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal bob wythnos a bod unrhyw gyflenwadau gofynnol yn cael eu harchebu.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn

[4] Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd
[5] Brysbennu yw'r drefn o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, prognosis a'r adnoddau sydd ar gael

sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Polisi parhad busnes a pholisi adfer ar ôl trychineb
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth am hyfforddiant a ddarparwyd yn tynnu sylw at yr hyfforddiant nad oedd yn gyfredol ym maes argyfyngau meddygol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol [6](gweler yr adran isod). Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda'r staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu[7] ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedwyd wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod camau cyntaf y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi cynnal system o gymryd galwadau ar gyfer gwasanaeth brysbennu o bell[8]. Mae hyn yn sicrhau bod modd darparu gofal cleifion yn unol â'u hanghenion.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, ac mae'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu rhannu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff, drwy eu grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost a galwadau fideo.

Esboniwyd y broses o wirio'r cyfarpar brys a'r meddyginiaethau. Mae'r staff yn gyfrifol am gyflawni'r gwiriadau wythnosol a chofnodi'r canfyddiadau yn y cofnodion priodol.

[6] Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol – Unigolion sy'n gymwys i ymarfer rhai agweddau ar ofal deintyddol sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i weithio yn y DU. Mae'r term yn cwmpasu amrywiaeth o broffesiynau, gan gynnwys nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol a hylenydd deintyddol. (Gweler gdc-uk.org)

[7] Dysgu a gynhelir drwy gyfryngau electronig, ar y rhyngrwyd fel arfer.

[8] Pennu graddau difrifoldeb er mwyn penderfynu ar y drefn o ran darparu triniaeth i nifer o gleifion.

Gwnaethom ddarllen y datganiad o ddiben[9] a'r daflen wybodaeth i gleifion[10], a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau cyrsiau DPP craidd. Roedd y rhestr yn tynnu sylw at y ffaith bod hyfforddiant ar argyfyngau meddygol rhai aelodau o'r staff wedi dod i ben yn 2020.

Mae'r bwlch yn yr hyfforddiant hwn yn ganlyniad anffodus i'r pandemig, sydd wedi golygu y bu'n rhaid canslo cyrsiau wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym fod rhai problemau ar hyn o bryd wrth drefnu hyfforddiant ar argyfyngau meddygol oherwydd bod ôl-groniad o staff/sefydliadau angen cyflawni'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bydd cwrs priodol yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl. Felly, rydym yn argymell y dylai'r hyfforddiant gofynnol gael ei drefnu cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r agwedd hon ar eu datblygiad proffesiynol parhaus.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach

[9] Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad a luniwyd yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.
[10] Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Coed-duon

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff nad yw eu hyfforddiant ar argyfyngau meddygol yn gyfredol yn trefnu lle ar gwrs cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf ganddynt | Safonau Iechyd a Gofal – Safon 7.1 Y gweithlu<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (1) (a) | Caiff hyfforddiant ar Argyfyngau Meddygol gyda Lubas Medical ei drefnu o fewn y pythefnos nesaf. Yn amlwg mae ôl-groniad ond byddwn yn derbyn y dyddiad cynharaf a gaiff ei gynnig. Gobeithio y bydd hyn yn ystod y tri mis nesaf ond, yn amlwg, mae'n dibynnu ar y rhestr aros ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sydd am gwblhau eu hyfforddiant ar argyfyngau meddygol yn yr un modd – mater sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, yn anffodus. | Zoe Clarke a Lisa Rees | Trefnu lle ar gwrs o fewn y pythefnos nesaf (os oes cyrsiau ar gael ac nad ydynt yn llawn fel roeddent pan wnaethom geisio gwneud hyn o'r blaen). Gyda'r nod o gwblhau'r hyfforddiant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mewn tri mis (eto yn dibynnu ar faint o leoedd sydd ar gael) |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Zoe Clarke

Dyddiad: 30 Mehefin 2021